***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2425

## Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2007

**Newid ar amser dechrau crynoadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu**

**10.**—(1) Yn achos crynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid neu arwerthiant defaid magu yn yr hydref a drwyddedwyd o dan erthygl 8, caiff y trwyddedai newid yr amser dechrau am ganol dydd, drwy o leiaf bythefnos ymlaen llaw—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru yn ogystal â'r awdurdod lleol o ddyddiad ac amser dechrau a diweddu'r crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref; a

(b) rhoi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref fel y bydd y sawl sy'n dod ag anifeiliaid yno yn cael gwybod am yr amser dechrau a diweddu newydd.

(2) Os yw'r crynoadau anifeiliaid yn un o gyfres o grynoadau o'r fath, caniateir i'r hysbysiad a'r cyhoeddusrwydd fod ar gyfer y gyfres honno.